# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 6

ADOLYGIAD GAN YR ACHWYNYDD

*Adolygu methiant y Comisiynydd i ymchwilio i gŵyn*

### 105 Apelau o'r Tribiwnlys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu cais o dan adran 103(2).

(2) Caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad.

(3) Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol—

(a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, a

(b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o'r naill du, rhaid iddo naill ai—

(i) anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu

(ii) ail-wneud y penderfyniad.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caniateir i'r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â'r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o'r naill du,

(b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/07/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 105. (See end of Document for details)*

(5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i'r Uchel Lys—

(a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud pe bai'r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a

(b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy'n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o dan yr adran hon o'i benderfyniad ar y cais o dan adran 103.

(7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(8) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 105 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 105 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/07/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 105.